YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1897. RHIF 109.

"Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

UNDODIAETH YN YSTRAD A RHYDYGWIN, CEREDIGION.

Nid fy amcan yn yr erthygl hon yw dweyd dim yn erbyn Trindodiaeth nac ychwaith o blaid Undodiaeth. Pe byddai imi ganiatad, nid priodol fyddai trafod pwnc o Dduwinyddiaeth ar dudalenau y *Journal*; ond gwnaf ar gais ac mor ddidramgwydd ag y medraf ysgrifenu ychydig o'r hanes pa fodd y dechreuodd Undodiaeth yn Ystrad a'r cyffiniau. Trindodiaeth, mewn rhyw ffurf neu gilydd, sydd wedi bod yn boblogaidd trwy yr oesau yn y wlad, ac yn debyg o barhau felly, ond nid heb fod yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau yn y dyfodol megis yn y gorphenol. O'r tu arall, nid yw Undodiaeth ond newydd-beth mewn cymhariaeth yn Nghymru wrth yr enw hwn.

Mae dechreuad yr achos Undodaidd yn Ystrad i'w olrhain yn ol i Gapel y Cilie, yn benaf, er fod yr un egwyddorion wedi bod yn gweithio a dwyn ffrwyth cyffelyb mewn capeli ereill. Nid pell o Ystrad y saif hen Gapel y Cilie, lle yr oedd, fel y dywedir yn 'Hanes Eglwysi Annibynol Cymru,' gan Rees a Thomas, eglwys luosog o Ymneillduwyr (Calfinaidd, wrth gwrs), ugeiniau o flynyddau cyn 1746, ond nis gallaf ddweyd pa nifer o ugeiniau. Yr oedd hon yn un o'r eglwysi hyny yn ngofal yr enwog Phillip Pugh, ac ereill, a gychwynasant ar y *down grade* o Galfiniaeth i Arminiaeth, yna i Ariaeth, &c. Bu Mr. Pugh farw yn 1760, a theimlai yn dra gofidus tua diwedd ei weinidogaeth faith, oherwydd y gwelai arwyddion fod lefain heresi yn gweithio yn ei eglwysi. Ar ei ol ef bu ereill yn gweinidogaethu yn yr eglwysi hyn, yn eu plith, David Lloyd, Llwynrhydowen, neu Brynllefrith, a'r hen Ddafis o Gastellhywel. Nid oedd pethau yn gwella dan weinidogaeth y

rhai'n, oblegid yr oeddent yn myned ar y goriwaered. Tua diwedd y ddeunawfed ganrif, dilys fod cynulleidfa Cilie yn gymysg o Galfiniaid, Arminiaid, ac Ariaid, ac yn eu plith rai personau, o leiaf, mwy *advanced*, yn Undodiaid trwyadl.—Nid oedd y dosbarth olaf eto wedi tori'r cysylltiad rhyngddynt â'u cyd-aelodau, eithr cyfarfyddent ar y Sul i gydaddoli fel arferol. Ond yn y blynyddau yn nghydiad y ddwy ganrif, y gorphenol a'r presenol, mae yn sicr fod nifer o honynt yn dyfod at eu gilydd mewn tai anedd yn y gymydogaeth, megis yn Ystrad, a manau ereill ar lanau Aeron, i addoli mewn modd mwy cydnaws â'u hargyhoeddiadau crefyddol neu dduwinyddol eu hunain. Eu blaenor oedd David Jenkin Rees, Lloydjack, un o ragorolion glanau Aeron, ac un a berchid yn fawr gan bawb a'i hadwaenai, medd hanes a thraddodiad. Ar gyfrif crefyddolder ei natur, ei gydwybodolrwydd diamheuol, a'i gymeriad difrycheulyd, nid oedd neb yn fwy addas i'r swydd, a gwnaeth yr oll a allai i hyrwyddo blaenfynediad yr achos bychan hwn yn ei gymydogaeth ei hun, ac mewn manau ereill, oblegid credai mai achos y gwirionedd oedd. Fel y canlyn yr ysgrifenodd un a adwaenai David Jenkin Rees yn dda at gyfaill, yr hwn a ewyllysiai wybod nodweddau ei gymeriad mor llawn a chywir ag y medrai eu rhoi :—

Fardre, Ionawr, 1860.

Anwyl Gyfaill,—Nis gallaf fi na neb arall roddi hanes D. J. Rees yn gywir a chyflawn mewn llythyr na llyfr bychan, ac ni allwn wneuthur cyfiawnder âg ef pe meddwn fywiawgrwydd a nerth ieuenctyd i ymgymeryd â'r gorchwyl o ysgrifenu ei hanes. Yr oedd o'i fabandod yn ufudd i'w rieni ac yn grefyddol. Dywedodd ei fam wrtho pan yn blentyn am ofalu peidio gwneuthur drwg i neb, ac efe a gadwodd y cyngor mewn cof a gweithrediad trwy ei holl fywyd. Bu yn gweithio yn ddiwyd gartref gyda'i dad a'i fam mewn fferm fechan heb allu ond yn brin cadw eu hunain allan o ddyled, nes oedd yn ddeg-ar-hugain oed, pan y priododd. Ar ol hyny daeth yn y blaen yn gyflym, fel y bu yn alluog i gynorthwyo bron ei holl gymydogion, a phob achos a fyddai yn tueddu i gefnogi gwybodaeth, rhinwedd, a duwioldeb o fewn cylch ei allu i weithredu. Ystyriai gyda theimlad gwyn y gweddwon, yr amddifaid, a'r tlodion, a chynorthwyai a diwallai hwynt hyd eitha ei allu.

Yr oedd ei elusenau yn amlach nag y gwyddai neb ond ei Dduw ac ef ei hun, os yn wir y gwyddai ef ei hunan. Pan y byddai yn rhoi, gorchymynai i'r derbyniwr gadw'r cwbl yn ddirgel. Wrth roddi yr oedd ei ffordd fwynaidd, lon, roesawus yn profi caredigrwydd ei galon, a'i ddymunaid i wneuthur y derbynydd yn ddedwydd. Amddiffynai ei hun, pan yn cael ei gamgyhuddo, mewn tymer dda, ac yn yr un modd cymerai blaid ei gyfeillion yn erbyn ymosodiadau athrodwyr. Cyfaill ffyddlonach, gwresocach, a mwy dianwadal nid oedd yn bod.

O'i ieuenctyd bu yn aelod defnyddiol a pharchus yn Nghilie hyd nes y bu yr achos penaf i ffurfio dwy eglwys agosach, yn ei dyb ef, at burdeb yr Efengyl yn Nghapelygroes a Phantdefaid yn y flwyddyn 1802 ; a bu yn llanw lle gweinidog dros flwyddyn gyfan nes cafwyd gweinidog yn ei le. O hyny allan cadwodd addoliad yn ei dy ei hun ddwy waith y mis—ei hun yn pregethu unwaith y mis, a'r gweinidog y waith arall, hyd nes adeiladodd ysgoldy (i fod yn addoldy hefyd) ar ei draul ei hun yn Ystrad, lle cadwyd yr addoliad wed'yn tra parhaodd y *lease*. Nid wyf yn gallu rhoi ond darluniad gwan o'i fywyd rhagorol ef. Y mae'r iaith gryfaf wedi cael ei harfer i ddarlunio rhai nad oeddent braidd yn gysgod o'i ymarweddiad ef, ac oherwydd hyny y mae geiriau wedi colli eu grym i ddarlunio yn argyhoeddiadol ragoroldeb rhinweddau gwirioneddol. Cael cyfeillach adeiladol, ymddiriedol, a mynwesol D. J. Rees dros ddeuddeng mlynedd oedd y fraint fwyaf a gefais yn y byd hwn, a'm gobaith hefyd yw ei chael o newydd yn y byd a ddaw.

Ydwyf, anwyl gyfaill, yr eiddoch yn ddidwyll,

JOHN JAMES.

Yn y llythyr uchod cofnodir dechreuad addoliad Undodaidd, a hyny yn *rheolaidd* yn Ystrad. David Jenkin Rees oedd y mwyaf blaenllaw yn ei sefydliad, oherwydd mai efe oedd y mwyaf galluog a dylanwadol o'r blaid fechan, ond yr oeddent oll mewn cydymdeimlad gwresog, ac yn cydweithio,—yn gymaint eu sel dros yr achos os yn llai eu gallu i'w ategu pan yr ymosodid arno gan wrthwynebwyr.

Yn ei fywgraffiad gan Dr. Charles Lloyd yn y *Monthly Repository* am Ragfyr, 1817, ymddengys fod D. J. Rees wedi cael ei gynysgaeddu â galluoedd naturiol nodedig *(distinguished talents)*, ac er na chafodd fawr fanteision dygiad i fyny, llwyddodd trwy hunanwrtaith i gyraedd stôr o wybodaeth gyffredinol yn mhell tu hwnt i'w gyfoedion. Yr oedd wedi meistroli y Saesneg i gymaint graddau fel y gallai ei siarad yn weddol rwydd, a'i deall yn dda pan ei darllenai, ond yr oedd yn hyawdl pan lefarai yn y Gymraeg. Hoffai yn benaf ymddiddan ar bynciau crefyddol, er nad oedd dadleuon gwladwriaethol yn bethau dyeithr iddo. Yr oedd yn ddarllenwr cyson o'r Ysgrythyrau, ac yn hyddysg yn eu cynwysiad fel nad oedd yn rhwydd ei orchfygu mewn dadl dduwinyddol. Yr oedd ei ddefosiynau yn llawn brawddegau Ysgrythyrol, ac felly yn llawn Ysbrydoliaeth, nes gwneuthur argraff ddofn ar feddyliau y rhai fyddai yn bresenol yn y gwasanaeth. Mae yr hedyn mwstard a blanwyd ganddo ef ac ychydig gyfeillion o'r un fath syniadau wedi gwreiddio ac wedi tyfu hyd yn hyn, ond y mae yu wir nad ydyw yn bren mawr. Bu D. J. Rees farw Medi 24ain, 1817, o'r *typhus*, a chladdwyd ef ar y 26ain. Canlynwyd ef yn Lloydjack gan ei gefnder, Rees Jones.

Aeth *lease* yr addoldy yn Ystrad allan pan fu farw Mrs. Rees

gweddw D. J. Rees, y 24ain o Orphenaf, 1846. Gwir na wnaeth y perchenog gloi y drws yn erbyn y gynulleidfa, ond gofynodd ardreth am dano yn y dyfodol lawer yn fwy nag oedd yn rhesymol, yr hyn a fu yr un mor effeithiol. Ymdrechwyd cael tyle i adeiladu capel arall heb fod ymhell oddiwrth yr hen, ond methwyd ei gael yn un man yn yr ardal, ac nis gwn ai y rheswm oedd y golygid yr Undodiaid y pryd hwnw yn fath o hereticiaid, i'w herlid allan o fodolaeth, os yn bosibl. Ond yn y diwedd, trwy garedigrwydd Arglwydd Carrington, tad yr arglwydd presenol, cafwyd darn o dir lle yn awr y saif Capel Rhydygwin, ryw filldir a haner o Ystrad, ac y mae yn rhyddfeddiant *(freehold)* i'r gynulleidfa. Iawn yw dweyd fod gwell teimlad at yr Undodiaid yn y gymydogaeth yn awr nag oedd gynt, ac yr wyf o'r farn na wrthodid iddynt heddyw unrhyw gymwynas a fyddai yn bosibl a rhesymol. Mae Cristionogion yn raddol yn dysgu cytuno i anghytuno.

Oddiar pan adeiladwyd Rhydygwin yn y flwyddyn 1848, bu yr hen addoldy yn ysgoldy, ac yn olaf, yn dy anedd hyd yn awr yn ddiweddar, Ar hyn o bryd, nid oes yno ond carn o geryg, fel yr wyf wedi clywed. Weithiau wrth fyned heibio'r hen ardal gysegredig hon, brith dybiwn fy mod yn gweled y personau, o fendigedig goffadwriaeth, yr oeddwn gyfarwydd â'u henwau er pan yn blentyn, yn cyniwair iddi i gyd-addoli ar y Sul yn negeidiau cyntaf y ganrif bresenol, ynghyd âg amryw ereill mewn amser diweddarach, y rhai a adnabyddwn yn dda, ond y rhai nid ydynt mwyach ymhlith y byw. Deuai i'm meddwl eiriau Zechariah, a gofynwn mewn ymson hiraethlon, 'Y tadau, pa le y maent hwy? a'r proffwydi, ydynt hwy yn fyw byth?' Ië, meddaf, heblaw D. J. Rees a Rees Jones, pa le mae Evan Abel, Rhydygwin? pa le mae yr hen Domos Jonathan, a Tomos William yr Union, a Siencyn Blaenplwyf, a Siencyn Tynant, a Dafydd Evans, Lloydjack, a Tomos Evans y Fro, a Tomos Howell, ac Evan Owen y Crydd, fel yr oeddent yn cael eu galw, a llu mawr o rai ereill—flyddloniaid yr achos Undodaidd yn ei fabandod? Ymhlith y gwragedd teilwng, y rhai a wnaethant a allent, pa le mae Mally Felinfach, a Mally Lloydjack, a Sally Danygraig, a Mari Griffydd, a Mari Tomos, fel y gelwid hwynt, a llawer ereill a ellid eu henwi? Maent oll wedi myned 'drwy y geledig gul adwy,' ys dywedodd Dewi Hefin am Aeronian druan. Mae i rai, yn debyg i amrai, o'r personau uchod blant ac wyrion ac orwyrion a pherthynasau ereill yn mhlwyf Ystrad ac ar lanau Aeron y bydd yn hyfrydwch mawr iddynt gael cyfleustra i ddarllen eu henwau a'r dudalenau y *Journal*, yr hyn sydd brawf nad ydynt wedi cael eu hanghofio er eu bod wedi marw, —yr olaf o honynt, er ys blynyddau meithion, ac yn brawf hefyd nad yw yr achos y buont mor selog yn ei bleidio yn y dyddiau drwg gynt yn cael ei ystyried yn heresi mor niweidiol heddyw, oblegid wele dudalenau un o brif newyddiaduron Deheudir Cymru yn agored i osod i fewn ychydig o'i hanes. Mae yr awdwr yn cofio'r

amser pan na wnae hyd yn nod un o brif ryddfrydwyr Cymru, fel ei tybid, *advertiso* cylchgrawn Undodaidd yn ei wythnosolyn, ond erbyn heddyw y mae yr un gwr boneddig yn yr un newyddiadur yn groesawu pob hanesion Undodaidd a anfonir iddo. "Tempora mutantur nos et mutamur in illis," hyny yw, mae yr amser yn newid ac yr ydym ninnau yn newid gydag ef.

Addoliad pythefnosol a gedwyd yn Ystrad hyd 1818. John James, gweinidog Capelygroes a Phantdefaid, oedd y gweinidog yno hefyd, yn cael ei gynnorthwyo gan D. J. Rees. Gadawodd John James am Forganwg yn 1816. Yn 1818 cytunodd cynnulleidfa Capelygroes â'r cyfeillion yn Ystrad i gael gweinidog iddynt eu hunain, yn fwyaf neillduol er mwyn i'r olaf gael addoliad bob Sul. Felly derbyniodd John Davies o Gellan (Davies o Gastellnedd fel ei gelwid mewn amser diweddarach) alwad i'w gwasanaethu, a dechreuodd ar ei weinidogaeth Awst, 1818. Aeth John Davies yn weinidog i Gastellnedd, a chymmerwyd ei le yn Capelygroes ac Ystrad gan Rees Davies yn 1825. Gorfu ar gynnulleidfa Ystrad, fel y dywedwyd o'r blaen, symud i Rydygwin yn 1848, a bu Rees Davies yn weinidog yn Rhydygwin a Chapelygroes hyd nes y bu farw Tachwedd 26, 1857. Canlynwyd ef yn Rhydygwin a Chilie gan y diweddar William Rees; a'i gweinidog presenol yw Lewis Williams.—O'r *Carmarthen Journal.*

THOMAS THOMAS.

Green Park.

RHYS MORGAN O BEN CRAIG NEDD.

Mae llawer wedi ei ysgrifenu mewn rhyddiaeth a barddoniaeth—yn Gymraeg a Saesneg—am brydferthwch naturiol Dyffryn Nedd. Mae y dyffryn hwn wedi bod er's hen amser yn hoff gyrchfa yr arlunydd, ac eraill o garwyr prydferthion anian. Er enwoced yw Cymru lân am ei bryniau a'i glynnoedd, ei llethrau coedwigol, ei hafonydd dolenog a'i rhaiadrau arianaidd, nid oes un ardal o fewn ei therfynau yn gyfoethocach o olygfeydd serch-hudol na dyffryn Nedd. Hen ddyffryn enwog yw, am ei gilfachau swyngar, ei rodfeydd rhamantus a'i berllanau persawraidd, cipolwg o'r ba rai a arwain y meddwl at Fendith y Mamau a'r Tylwyth Teg, a'r holl fodau bychain ysmala, gwamal a difyrgar a enwir gan y bardd Shakespeare yn ei *Midsummer's Night's Dream.* Llawer gwaith yn hwyr ddydd hâf, neu ar noson wenloer oleu, wrth rodio yn swn murmur yr afon, o dan ganghenau cauadfrig hen gewri o goed derw, bu rhai o feibion y dyffryn o dan ddylanwad yr amgylchoedd hyn, dylanwad a fu yn effeithiol i ddyrchafu meddyliau ac amcanion llawer un o honynt, nes eu codi i fod yn addurniadau yn y byd llenyddol, yn y pwlpud, ac yn amrywiol gylchoedd bywyd.

Ar ael y bryn sydd yn ffurfio ochr ogledd-orllewinol y dyffryn, yn ymyl y llwybr sydd yn arwain o'r Creunant i'r Ynysfach (Resolven) yn mhlwyf Llangattwg, saif amaethdy henafol a elwir Pen Craig Nedd. Mae y ty, oherwydd ei safle ddyrchafedig, yn nod amlwg i'r teithydd o bellder maith, ac mae yr olygfa a geir o'r twyn ger y ty, tua'r gogledd a'r de, yn ad-daliad digonol am y lludded a'r drafferth o ddringo y rhiw serth sydd yn arwain at y fan.

Yn yr amaethdy hwn y ganwyd, yn niwedd yr ail-ganrif-ar-bymtheg, un o brydyddion mwyaf awengar Morganwg, adnabyddus i ddarllenwyr henlenyddiaeth y Sir wrth yr enw Rhys Morgan o Ben Craig Nedd, ac weithiau Rhys Morgan o Langattwg. Nid oes sicrwydd yn mha flwyddyn y ganwyd ef, ond yr oedd yn gyd-oesydd a Dafydd Nicolas, hen fardd teulu Aberpergwm, yr hwn a anwyd yn 1693, ac a fu farw yn 1769. Gesyd un ysgrifenydd fod Rhys Morgan yn blaguro rhwng 1720 a 1760

Ychydig o fanteision addysg oedd o fewn cyrhaedd amaethwyr blaenau Morganwg yn y cyfnod hwnw, ond yr oedd y prydyddion, beth bynag, yn bur gyfarwydd a'r Gymraeg, a rhai ohonynt yn hyddysg hefyd yn y Saesneg, fel y tystia cyfieithiadau i'r Gymraeg o weithiau beirdd Saesneg adnabyddus gan Lewis Hopcyn ac eraill. Yr oedd Dyffryn Nedd a'r ardaloedd cylchynol wedi bod yn feithrinfa beirdd er's oesau, rhai ohonynt wedi cyrhaedd safle o enwogrwydd a pharch ymhlith beirdd Cymru, megis Dafydd Benwyn a Thomas Llewelyn o Regoes—Lewys Morganwg, Ieuan ddu'r Bilwg, Ieuan ap Hywel Swrdwal &c.

Oesau wedi i'w tafodau ddystewi arosai dylanwad cynyrchion yr hen feirdd hyn ar feddyliau gwerin Morganwg. Yn yr oes ganlynol cododd Sion Llewelyn o Langewydd yr hwn a fu yn athraw i feirdd, a bu iddo nifer fawr o ddisgyblion clodwiw. Felly o dô i dô ni fu prinder meib yr awen yn y rhan hon o Forganwg i gadw yn oleu lamp dysg a dawn, ac yr ydym dan ddyled iddynt hyd heddyw, am eu hymdrechion daionus mewn oes dywell.

Cyfeillion penaf ein harwr oeddynt Dafydd Nicolas Aberpergwm, Lewys Hopcyn, o Hendre Ifan Goch, Llandyfodwg, William Tomos, Wil Hopcyn o Langynwyd, ac Edwart Ifan o'r Toncoch, Aberdar. Hawlient y Cyfenwad—Beirdd Gorsedd Morganwg, ac nis gellir gwadu eu hawl a'u teilyngdod i'r teitl. Cynhalient Eisteddfodau lleol, yma a thraw, ar hyd y sir, lle y cystadleuid yn benaf mewn prydyddiaeth, a gwneid hyn gyda gradd o wres ac ysbryd, nid annhebyg i'r hyn a ganfyddir mewn ymgyrfeydd Eisteddfodol ein dyddiau ni. Yr oedd Eisteddfod yn y Pîl yn y flwyddyn 1715 ac yr oedd rhai o'r beirdd hynaf o'r gyfres a nodwyd yn bresenol. Yn gynar yn y ddeunawfed ganrif cyfansoddodd Rhys Morgan, awdl ar yr Iaith Gymraeg. Mae i'w gweled ar ddiwedd Grammadeg Sion Rhydderch yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1728 ac wedi hyny yn Nghaerfyrddin yn 1824. Mae ei phenawd fel hyn :

—"Awdl ar y Pedwar Mesur ar Hugain, i'r Hen ddoeth, ardderchog, a'r haeddbarch Iaith Gymraeg yn ol rheol y Grammadeg—Rhys Morgan, o Langatwg, yn Morganwg a'i Cânt." Am deilyngdod barddonol yr awdl yma nis gellir dweud llawer, canys ymddengys fel pe byddai synwyr wedi ei aberthu mewn llawer man er mwyn cael cynghanedd gref. Dengys y gwaith lawer o gywreinrwydd, ac mae yn ddiddadl yn engraifft gywir o'r mesurau a'r cynghaneddion, er gwaethaf barn ddrwg-dymherus Taliesin ab Iolo—yr hwn a ddywed fod yr awdl a'r grammadeg yn anghywir. Ymhlith y manau yr hoffai y prydyddion yma gyfarfod yn a cher Dyffryn Nedd yr oedd Hen Dafarn y Banwain a Gwesty Arwydd yr Angel, yn Mhontneddfechan. Cynhalient yr hyn a alwent yn gyfarfodydd y Prydyddion yn y tai hyn, ymhyfrydent mewn cynyrchion awen barod, mewn ffraethebau, mewn canu gyda'r delyn &c. Weithiau torrid ar heddwch eu cyfeillach bleserus gan grach-fardd hyf ac uchelgeisiol, a byddai y driniaeth a gaffai'r cyfryw ar law y cylch prydyddol— mewn gogoniaeth a thuchangerddi, yn destyn difyrwch yn yr ardal am hir amser wedi hyny. Rhwng 1720 a 1730 yr oedd Rhys yn ddysgybl i Dafydd Hopcyn o'r Coetty—hen fardd cyfrifol a berthynai i Orsedd Morganwg. Yn 1735 yr oedd Eisteddfod yn Nghymmer Glyncorrwg, ac yr oedd yn bresenol bob un o'r beirdd a nodwyd fel cyfeillion Rhys Morgan. Ymddengys i'r cyfarfod hwn fyned yn mlaen mewn yspryd pur ddymunol hyd nes i Wil Hopcyn o Langynwyd gymeryd tramgwydd o herwydd presenoldeb rhyw ddieithriaid oeddynt wedi dyfod i'r Eisteddfod, a chanodd Sen i'r prydyddion oeddynt yno am ganiattau iddynt ddyfod i fewn. Nid ydym wedi gweled cân Sen Wil, os ydyw yn wir, ar gael, ond gallwn gasglu oddiwrth Englynion Cerydd Lewys Hopcyn ac Edwart Ifan i'r grwgnachwr hwnw, ei fod yn ei gân yn llysenwi y dieithriaid a'u trin yn dra angharedig. Mewn canlyniad i'r cynwrf anffodus hwn cawn i'r dieithriaid fyned allan, a chanlynwyd hwy gan Rhys Morgan—a chyfeiria Lewys Hopcyn at y digwyddiad yn yr englyn hwn :—

Fe aeth Rhys mewn brys o'r bron—ar gerdded
A'r gwir-ddoeth gyfeillion,
Colli o'i achos, call wychion,
O'ch gwyn llwyr ! naw bachgen llon.

Tua'r amser yma—fe allai erbyn yr Eisteddfod a nodwyd cyfansoddodd Rhys Morgan yr Englynion canlynol. Myfyrdod ar y pedwar peth diweddaf, sef "Angau, Barn, Nef ag Uffern."

MYFYRDOD AR ANGAU.

Llofrudd, destrywydd, dwys draw-wr—nattur
Hynotaf o ungwr,
Gelyn melyn pob milwr,
Terfyn a gelyn pob gwr.

Trosglwyddwr nodwr eneidie—e'to
I atteb i'r frawdle,
Gwas buddiol i'r duwiol de,
A gelyn i'r drwg gole.

MYFYRDOD AR Y FARN.

Dydd barn, dydd cadarn, dydd codi—y meirw
A dydd mawr y cyfri,
Dydd danod hynod heini,
Neu haf-ddydd newydd i ni.

Dydd atteb yw'r dydd etto—dydd y byd,
Dydd cydwybod ddeffro,
Dydd i'r Saint gael braint a bro,
Ac eraill gael eu curo.

MYFYRDOD AR Y NEF.

Breinllys pen llys a lle—go-fawr-bach
Gyferbyn a'r Seintie,
Yngan ni baidd ange,
Yno fyth air, ano fe.

Llys Iesu felly a'i gyfeillion—gant
A fu gynt yn ffyddlon
Llys y Tad a'i genhadon,
Lles diau yw llys Duw Ion.

MYFYRDOD AR UFFERN.

Lle yw i noeth fyw mewn aethfyd—lle prudd
Lle prydyddion hefyd,
Ar gân fo a'i hamcan o hyd,
Anferth bod neb mor ynfyd.

Lle Satan aflan a'i lu—lle go wael
Lle gelynion Iesu,
Lle'r dial, lle'r llwyr dalu,
Lle'r prudd dân, lle'r praidd du.

Hyfforddiadol a chrefyddol ydyw y ddullwedd sydd yn ganfyddadwy yn marddoniaeth gyhoeddedig yr hen gyfeillion hyn gan mwyaf.

Merthyr. D. T. MORGAN.

[I Barhau.]

ADGOFION ISLWYN.

Ni ddeuaf, fy mrawd, er iti daer erfyn,
O Gymru dylawd, ni chroesaf ei therfyn.
O, dyged Rhagluniaeth dydi yn dy ol,
I ddringo'r hen fynydd, i rodio'r hen ddol!

Fy mrawd! mae'r hen afon yn murmur o hyd,
Am rywbeth sydd ganwaith rhagorach na'r byd;
Mae angel y dyffryn yn para yr un,
I'm derbyn yn ol o bob gwibdaith flin;
O tyred, fy mrawd! Mae Angel y dyffryn
Ac Awen yr afon yn barod i'th dderbyn.

O Gymru! 'rwy'n caru cysgodion dy fryniau,
Fel edyn tragwyddol amrywiol eu lluniau;
Mi dybiwn fod engyl i'w gwel'd yn dy wybrau,
Ac ol eu hymweliad yn gwynu dy lwybrau!
Mae adsain cref anthem yr hen ddiwygiadau
Hyd heddyw yn nofio hyd fröydd fy nhadau.

Ar lan ei hafonydd y treuliais heb loes,
Mewn swn awenyddol, foreuddydd fy oes;
O bydded fy henaint yn gwywo yn llonydd
Fel derwen lawn oed, ar lan ei hafonydd,
A bydded im' yno, pan wywo y wedd,
Ar lan ei hafonydd O bydded fy medd!—Islwyn.

"GWNEWCH EICH GOREU."

2 PEDR iii. 14.

(Traddodwyd yn Furnival Street, Llundain, Medi 13eg, 1896).

GAN D. DELTA EVANS.

(Parhad).

(III)

Yr ydym heno yn cychwyn cyfnod newydd yn hanes Mudiad Undodaidd Cymreig Llundain. Aeth dros flwyddyn heibio bellach er pan ddechreuasom ar ein gwaith cenhadol, a chyfyd y cwestiwn yn ein meddyliau—A ydym ni wedi gwneyd ein goreu? Cafodd rhai o honom yn ystod y flwyddyn brofedigaethau blin a disymmwth, ac o leoedd y gellid disgwyl lleiaf am danynt; gorfu i rai o honom wynebu ar siomedigaethau chwerwon hyd yn oed yn yr anturiaethau mwyaf llewyrchus a gobeithiol; bu rhai o honom o bossibl yn teimlo mor brudd a digalon fel y gallem yn briodol wneyd defnydd lawer pryd o hen benill Cwynfanllyd Williams o Bantycelyn.—

"Disgwyl pethau gwych i ddyfod—
Croes i hyny maent yn dod;
Meddwl 'fory daw llawenydd,
'Fory'r tristwch mwya' erioed;
Meddwl byw, ac etto marw
Yw'r lleferydd dan fy mron;"
O na chawn i ganu ffarwel—
"Ffarwel glan i'r ddaear hon."

Yn ngwyneb cyflwr meddyliol isel ac athrist fel hyn, cyngor y testyn heno ydyw—"Gwnewch eich goreu;" gwnewch eich goreu i ddyfod allan o hono; gwnewch eich goreu rhag ail-gwympo iddo. Y prif achlysur ohono ydyw pechod, gelyn dyn yn mhob man—gwnewch eich goreu i gadw hwnw draw. Ac un ffordd effeithiol i wneyd hyny ydyw bod yn ddiwyd ac effro gyda rhyw orchwyl teilwng a defnyddiol, rhyw waith urddasol, dyngarol, a da, fel ag i gadw y dwylaw a'r traed a'r pen a'r galon a'r holl beirianwaith corphorol a meddyliol yn barhaus ar fyn'd, rhag iddo rydu, a rhwystro, myn'd allan o drefn.—Gyfeillion, ar ddechreu y tymhor fel hyn, y mae yn y maes ëang ag sydd yn agored o flaen ein Mudiad ddigon o waith i bob un o honom—nid oes angen hyd yn oed i'r gwanaf fod yn segur. Gall pob un wneyd rhywbeth, a gall pob un

wneyd ei oreu gyda'r rhywbeth hwnw. Pe caffem ni unwaith yr argyhoeddiad fod genym genadwri i'w chyflwyno i'n cydgenedl, ac fod y genadwri hono mor werthfawr ac urddasol neu y mae yn werth i ni wneyd ein goreu gyda hi, credaf yn sicr y byddai ein siarad, ein canu, a'n gweddio—ie, ein gwaith cenhadol hefyd yn llawer mwy effeithiol ac yn gyflawnach o fywyd ac yspryd ein Hathraw nag maent yn awr. Dylem gofio fod rhwymedigaeth i geisio gwella a dyrchafu y byd yn gorphwys ar bob un ar ei ben ei hun. Nid oes neb yn cael ei golli yn y lliaws. Yr anhawsder ydyw gwneyd hyn yn glir i'r deall, a'i ddwyn adref at gydwybod pob un ar wahân ; ond pe gellid unwaith cael yr yspryd cenhadol hwn i gymmhell, a rheoli ac arwain bywyd, y fath gytnewidiad fyddai i'w weled ar gymdeithas. Wrth waith cenhadol y golygaf, nid ceisio poblogeiddio ein credo personol ein hunain a lledaenu ein syniadau duwinyddol, ond fod pob un a phawb yn cymmeryd rhan yn y rhyfel sanctaidd yn erbyn pechod, tywyllwch, a thrueni.

SALM XLIII.

Fel am y dyfroedd brefa'r hydd,
  Dan bwys y gwres yn byw ;
Dyhead f'enaid felly sydd
  Am newydd ras fy Nuw.

Am danat, Dduw, mae f'enaid i'n
  Sychedu'n ddwys o hyd ;
Pa bryd caf wel'd dy wyneb cu
  A'th rasol wedd, pa bryd ?

Trist genyf gofio, gwael fy llun,
  Pan dreiddit f'enaid trwy ;
'Roedd mawl pob calon yn gytun
  A minau'n un a hwy.

Pam ymollyngi, f'enaid mad,
  Gobeithia eto ; cân
Ei foliant Ef sydd iti'n Dad
  Arosol fel o'r blaen.

UNDOD DUW.

Hanfod y Duwdod nid ydyw—ond Un
  E' yn Dad diledryw ;
Un ydoedd Ef, Un ydyw
  Ei enw Ef, ïe Un yw.

ARWYSTL.

Adran yr Ysgol Sul.

GWERSI AR FYWYD IESU FEL EU COFNODIR YN YR EFENGYL YN OL MARC.

IONAWR 10, 1897.

GWERS XV.—RHAGARWEINIOL.—IESU YN Y DDINAS SANCTAIDD.

Y TESTYN EURAIDD. — *Oni wyddoch fod yn rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthyn i'm Tad.*—LUC ii. 49.

Y gwyliau Iuddewig.—Y prif wyliau Iuddewig : (a) Y Pasc ; (b) Y Pentecost, neu wyl yr wythnosau ; (c) Gwyl y Pebyll. Eu hamser : Y Pasc yn y mis cyntaf o'r flwyddyn Iuddewig (mis Mawrth) ; Y Pentecost oddeutu y cyntaf o Fehefin ; Gwyl y Pebyll oddeutu y cyntaf o Hydref. Gweler Deut. xvi. Lef. xxiii. Yr oedd pob un o honynt yn wyl y cynhauaf. Cedwid y Pasc ar amser addfediad yr haidd ; Y Pentecost ar amser y cynhauaf gwenith, a'r Pebyll ar amser y cynhauaf gwin. Ond yr oedd pob un o'r gwyliau hefyd yn gyssylltiedig a rhyw ddygwyddiad pwysig yn eu hanes : cedwid y Pasc fel gwyl o goffadwriaeth am eu gwaredigaeth o'r Aifft (Deut. xv. 1) ; Gwyl y Pebyll er cof am yr amser y buont yn byw mewn pebyll yn yr anialwch ar ol eu gwaredigaeth ; ac yn ddiweddarach yn eu hanes cyssylltid a'r Pentecost y syniad o goffadwriaeth am roddiad y ddeddf ar Sinai. Yr oedd pob gwrryw i fyned i'r ddinas Sanctaidd i'r gwyliau hyn bob blwyddyn (gweler Deut. xvi. 16).

Y Pasc.—Hon oedd y pwysicaf o'r tair gwyl. Parhai am saith niwrnod. Y rhan fwyaf pwysig o'r wyl oedd bwytta oen y Pasc, yr hyn a gymmerai le ar y dydd cyntaf yn yr hwyr. Dygid yr wyn yn gyntaf i'w dangos i'r offeiriad, ac ar ol y gwasanaeth yn y deml ymgynullent yn bartion (o 10 i 20) mewn tai annedd i'r dyben o barottoi'r swpper, yr hon oedd i ddechreu ar ol machludiad haul. (Gweler y manylion yn *Life in Palestine*).

Y Daith i Jerusalem.—I wyl y Pasc yr aeth Iesu pan yn 12eg oed. Y pellder rhwng Nazareth a Jerusalem oedd 80 milldir. Yr oedd yn yr oedran pan y mae amgylchiadau cyffelyb yn gwneyd argraffiadau dwfn ar feddwl plentyn. Ar y daith elent heibio i luaws o leoedd cyssegredig i deimlad pob Iuddew. Yr oedd Iesu yn gwybod digon o hanes ei genedl i wneyd y lleoedd hyn yn ddyddorol iddo, a gallwn yn hawdd ddychmygu mor aml oedd y gofyniadau a ddelai i'w feddwl wrth fyned heibio iddynt, ac wrth fod ei rieni yn eu nodi allan. Dyma rai o'r hanesion a ellid eu hadrodd ar y ffordd : Rhyfeloedd Deborah a Saul (Bren. iv. v. ; 1 Sam. xxxi. ; 2 Sam. i.) ; Ebal a Gerizim (Deut. xxvii. xxviii) ; Ffynon Jacob (Gen. xxxiii. 18—20 ; Ioan iv. 5. 6) ; Shiloh a'r plentyn Samuel (1 Sam. i—iii. ; vii. 15—17) ; Bethel (Gen. xxviii. 10—22).

Yn Jerusalem.—Jerusalem oedd canolbwynt addysg, llywodraeth, a chrefydd yr Iuddewon. Ac yn Jerusalem yr un lle pwysig yn ngolwg yr Iuddew oedd y deml. Yr oedd yr adeilad presenol (amser Iesu) wedi cael ei adeiladu gan Herod. Hon oedd y drydedd deml oedd wedi cael ei hadeiladu yn yr un man. Dinystriwyd hi yn 70 O.C. gan y Rhufeiniaid. Yr oedd yr adeilad o faintioli anferthol, ac yn brydferth neillduol. Cedwid gwasanaeth yno ddwy waith bob dydd; a chyflawnid y gwasanaeth gan yr offeiriaid a'r Lefiaid. Yr oedd y cyntaf radd yn uwch na'r olaf Ac yr oedd hefyd lu o swyddogion eraill, y rhai a ofalent am y gwahanol ranau o'r gwasanaeth.

Iesu yn siarad a'r Doctoriaid.—Yn ystod yr wyl collwyd ef gan ei rieni, ac ni welwyd ei eisiau nes oeddynt wedi myned gryn bellder o ffordd adref. Pan aeth yn ol, ac ar ol chwilio an dano gryn amser, cawsant ef yn y deml yn siarad a'r Doctoriaid neu'r Dysgawdwyr, "yn gwrandaw arnynt ac yn eu holi hwynt." Hyn oll yn naturiol i un oedd yn meddu y reddf grefyddol yn gryf. Cymmerai ran yn yr ymddyddan, a gwrandawid ar ei ofyniadau gan y Dysgawdwyr gyda chydymdeimlad. Yr hanesyn hwn yn debygol yw y cyntaf am Iesu ag y gellir ymddibynu arno.

Gwersi'r Hanes.—(a) Dengys addfedrwydd meddwl. Nid yw yn debygol y meddyliai am fyned at y Doctoriaid oddieithr ei fod yn dra chyfarwydd a'r pynciau a drinid ganddynt, ac yn teimlo dyddordeb ynddynt. (b) Dengys awyddfryd am wybodaeth grefyddol. Oherwydd mae'n fwy naturiol i feddwl fod Iesu wedi myned at y Doctoriaid er cael ei ddysgu ganddynt, na chredu ei fod ef wedi myned attynt hwy i'w dysgu hwy. (c) Dengys mor drylwyr oedd eisoes wedi cael ei feddiannu gan yr ysbryd a berodd iddo i ymgymmeryd a gwaith ei fywyd ar ol hyn.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Adroddwch y testyn euraidd. 2. Enwch y prif wyliau Iuddewig, yn nghyd a'r amser y cedwid hwynt. 4. Am ba sawl diwrnod y parhai? 5. Faint oedd pellder Nazareth o Jerusalem? 6. Pa hanesion ellid eu hadrodd wrtho ar y ffordd? 7. Paham oedd Jerusalem mor bwysig yn ngolwg yr Iuddew? 8. Gan bwy yr adeiladwyd y deml oedd ar gael yn amser Iesu Grist? 9. Pa bryd a chan bwy y dinystrwyd hi? 10. Pwy oedd yn cyflawni gwasanaeth crefyddol y deml? 11. Adroddwch yr hanes am ymweliad Iesu a Jerusalem pan yn ddeuddeg oed? 12. Gan ba sawl un o'r Efengylwyr y cofnodir yr hanes?

GOFYNIADAU I SAFON 4.

1. A pha ddygwyddiadau yn hanes y genedl y cyssylltid y prif wyliau Iuddewig? 2. Pa faint a wyddoch am y dull y cedwid y Pasc? 3. Sut ydych yn cyfrif fod rhieni Iesu wedi myned mor bell ar eu taith adref cyn sylwi fod Iesu yn eisiau? 4. Pa olwg gymmerwch ar yr hanesyn? 5. Pa wersi a awgrymmir ganddo?—D.E.

IONAWR 17.

GWERS XVI.—RHAGARWEINIOL.—O DDEUDDEG I DDEG AR HUGAIN OED.

Y TESTYN EURAIDD.—*A'r bachgen a gynyddodd, ac a gryfhaodd yn yr yspryd, yn gyflawn o ddoethineb: a gras Duw oedd arno.*—LUC ii. 40.

Yn y bras-hanes am Iesu a geir yn y pedair efengyl mae deunaw mlynedd o brofiad cyfoethog wedi myned ar goll yn hollol. Yn wir, mewn un yn unig o'r cofnodion hyny y gwneir crybwylliad at y ffaith fod Iesu pan yn ddeuddeg mlwydd oed wedi ymddiddan â gwyr dysgedig yn Jerusalem. At y deunaw mlynedd rhwng yr olygfa hon a dechreu gwaith cyhoeddus yr Athraw ni cheir unrhyw grybwylliad gan y pedwar haneswyr. Yn chwedloniaeth yr eglwys fe ddywedir llawer iawn am ei blentyndod ag sydd erbyn heddyw yn anhygoel, ac wrth fesur a phwyso yr hen ystraeon hyn, rhaid i ni addef mai gwell genym ddystawrwydd y pedair efengyl na'r ymgais hon at ormodedd yn nglyn ag hanes sylfaenydd ein crefydd. Yn y wers hon ceisiwn chwilio allan y dylanwadau fu, yn ystod y tymhor hwn, yn ffurfio bywyd yr hwn a "lefarodd fel na lefarodd dyn erioed." Yn lle eu colli neu eu gwastraffu, bu y blynyddau hyn yn debyg i'r blynyddau a ânt i ffurfio cenhedl neu i adeiladu un o'r pyramidiau.

(1) *Dylanwad y cartref.*—Man anwylaf o bob man i'r Iesu oedd ei gartref. Toddedig iawn yw ei wylied, pan y mae yn agoshau at awr dywyllaf ei fywyd, yn dychwelyd bob nos dros y llwybrau tawel ar lethrau mynydd yr Olewydd i geisio am y llonyddwch a'r cariad tebyg i'r rhai a fwynhâai unwaith yn Nazareth, yn y cartref cysurus yn Bethania. Ymdyfai Iesu yn naturiol mewn serch. Ar sylfaen ei fywyd teuluaidd yn Nazareth y tyfodd ei gariad at y teulu dynol. Cofleidiai bawb yn ei gariad anfeidrol. Yn mhob man ni chredai efe yn ngwaelder, ond yn mawredd yr enaid dynol; a thrwy ei fod yn ymddiried mewn dynion, galwai allan ynddynt yr argyhoeddiad o'u hanfarwoldeb, hiraeth am fywyd mwy godidog, a'r ymwybodolrwydd o ogoniant a phrydferthwch sancteiddrwydd. Yr enaid anfarwol yn y corff oedd gwrthddrych ei gariad ef, ac ni ofalai efe p'un ai mewn tywysog neu mewn gweithiwr, mewn Pharisead moesol, neu mewn putain anfoesol, y preswyliai yr enaid hwn.

(a) *Ei gariad at ei Wlad.*—Oddiwrth ei fam y derbyniodd efe ei serch angerddol at ei wlad—ffrydiodd y dagrau a dywalltodd efe dros Jerusalem, a siarad yn ddynol, o'i chalon hi.

(b) *Ei neillduedd.*—Pan y daeth Iesu adref o'r deml wedi bod yn ymddiddan a'r doctoriaid, ni ruthrodd y fam gyda chywreinrwydd dall i gysegr santeiddiolaf yr enaid dynol, ond "hi a gadwodd yr holl eiriau hyn yn ei chalon." Dylanwadai cymeriad mytyriol Mair ar gymeriad Crist. Cadwai Iesu ddystawrwydd mud ar brif amgylchiadau ei fywyd. Y deunaw mlynedd hyn o dawelwch cuddiedig, y deugain niwrnod o fyfyrdod unig yn yr anialwch. Y fath wersi a gynwysant, a phwy a draetha ddylanwad y neillduedd hwn?

(2). *Dylanwad natur.*—Fel y crybwyllwyd yn ngwers xi. yr oedd y golygfeydd o amgylch Nazareth yn hynod brydferth, oblegyd oddiar gopa y bryn y nythai y pentref yn ei gesail, y ceir yr olygfa fwyaf amrywiol yn ei thlysni yn holl wlad Palestina. Anmhosibl prisio yn ormodol ddylanwad y fath brydferthwch ar feddwl plentyn fel Iesu. Yr oedd teimlad serchus y genedl Iuddewig at anian yn ddwfn ac yn helaeth. Yn nghanol y fath wlad a chyda'r cyfryw deimlad yr ymsymudai Iesu yn ystod y tymhor hwn. Pan yn blentyn, dysgodd weled y byd ysprydol o dan yr anianol. Yr hyn a ddaw i ni ar adegau yn unig, dyna oedd ei fywyd beunyddiol ef. Gwrandewch ar ei ymddiddan, a sylwch ar ei ddamegion—"Myfi yw y wir winwydden," Ioan xv. 1; "Ystyriwch lili y maes" Matt. vi. 28; Yr hedyn mwstard; Yr hauwr yn hau yr had, &c. Bywyd Duw yn natur a ddeffroai fywyd Duw oddifewn iddo. Efe a ddysgodd wirioneddau mwyaf cyfoethog Duw trwy ei gymundeb â natur.

(3) *Dylanwad ei grefft.*—Saer oedd Iesu Grist, ac y mae yn naturiol i gasglu fod ganddo lawer o oriau hamddenol at ei wasanaeth. Dechreuai y Dwyreiniwr ar ei orchwyl gwaith yn hwyr a gadawai ef yn gynar. Yr oedd angenion bywyd y pryd hwnw yn syml ac yn ychydig. Mae crefft, fel saerniaeth, yn dyfod yn fuan yn fater cyfyngedig i'r fraich a'r bysedd, a gedy y meddwl a'r enaid yn rhydd i ddilyn eu ehediadau ysprydol. Yn y fel hyn gall y grefft iselaf fod yn ysprydoliaeth i'r genadwri fwyaf ogoneddus. Mae llawer i fugail o Ddafydd Frenin hyd James Hogg, a llawer i ffermwr o Cincinnatus hyd Robert Burns wedi cael allan fod yr alwedigaeth brinaf yn ffynonell doethineb dwfn, neu gän felus. Mae y fugeilffon a'r delyn, yr aradr a'r ysgrifbin, wedi bod yn gymdeithion llwyddiant.

(4) *Yr elfen grefyddol.*—Amgylchiad o gryn bwys yn hanes Iesu ar yr adeg hon oedd ei ymweliad a Jerusalem bob blwyddyn ar amser y pasc. Safai Nazareth bedwar ugain milldir oddiwrth Jerusalem, ac wrth yr amser i fyned a dod, yn nghyd a'r amser a dreulid yn y brif-ddinas, byddai mis o bob blwyddyn yn cael ei dreulio gan y dyn ieuanc yn nghwmni y doethion o bob cwr a ymgyrchent i'r wyl fawr. Trwy yr ymweliadau hyn daethai yr Iesu yn gydnabyddus a holl wirionedd a doethineb y byd y pryd hwnw, ac yn ystod y blynyddau hyny nad oes hanes am danynt, bu efe yn astud yn dewis y meddyldrychau goreu maes o'r crugyn anferthol oedd wedi ei arllwys o'i flaen, yn didoli yr hyn oedd dragwyddol oddiwrth yr hyn oedd yn amserol.

(5) *Hanes ei bobl.*—Pwy a fedr sefyll ar ryw lecyn enwog yn hanes ei wlad, heb deimlo bywyd newydd yn ymlifo trwy ei enaid, ac yn ei ddwyn ef allan o gylch cul ei fuddiannau bychain ei hunan i gydymdeimlad a'r byd mawr y tu allan iddo. Bob dydd ymagorai y cyfryw fyd o flaen Iesu. Daethai gorphenol Israel gyda'i gwroniaid, yn sylwedd byw ger ei fron, ac yr oedd hanes yn cael ei eni

drachefn yn ei feddwl. Dyfnhäai y teimlad hwn, o bosibl pan yr elai i Jerusalem. Nid heb gyffro y gallasai efe rodio ar hyd ystrydoedd y ddinas ag oeddent yn adseinio o hyd gan enwogrwydd Solomon, tân angerddol Esaia dros ei wlad a'i helynt, tristwch a chwynfan Jeremiah. Dyma'r galluoedd a alwent i fodolaeth y galluoedd cuddiedig yn meddwl ac enaid mawreddog yr Iesu.

(6) *Ei gymundeb a'i enaid ei hun.*—Ychydig o bobl allant dynu adnoddau eu cysur o honynt eu hunain, rhaid iddynt ymbwyso ar eraill. Mewn byd na feddai ar nemawr o gydymdeimlad ag ef, daliai Iesu gymundeb mynych a'i hunan, a myfyriai ar y pynciau mawrion ag ydynt wedi trawsnewid yr holl fydysawd.

(7) *Ei gymundeb â Duw.*—Yr oedd Iesu yn ymwybodol o bresenoldeb ei Dad gydag ef bob amser, trigai ac ymddifyrai yn y presenoldeb hwnw. Ymorphwysai ar y cariad tragwyddol, a gwnai ewyllys ei Dad, a bu yn ffyddlon i waith ei Dad hyd y diwedd. J.H.D.

IONAWR 24AIN.

GWERS XVII.—IOAN FEDYDDIWR YN PAROTOI'R FFORDD.

(Marc i. 2—8; Cymharer Matt. iii. 1—12; Luc iii. 1—17.)

Y TESTYN EURAIDD —*Llef un yn llefain yn yr anialwch, parotowch ffordd yr Arglwydd, unionwch lwybr i'n Duw ni yn y diffaethwch.* —ESAIAH xl. 3.

NODYN 8.—Dymunwn gymeradwyo i sylw athrawon, sydd yn medru Saesneg, esponiad Mr. Solly ar Efengyl Marc—*The Gospel according to Mark, by H. S. Solly: Sunday School Association. Price 3s. 6d.* Bydd hwn a *Life in Palestine, gan y Proff. Carpenter,* yn ddigonol ar gyfer y gwaeth sydd o'u blaen.

NODYN 9.—Gwnaed athrawon alw sylw neillduol at yr ymadroddion cyfochrog a ddyfynir o'r Efengylau eraill.

NODYN 10.—Adolyger yn fanol cyn myned yn mlaen Wers IV. ar Efengyl Marc yn Rhifyn Hydref, 1896.

Adnod 1.—Saif hon fel teitl i'r rhan hono o'r benod sydd yn ymwneyd ag Ioan Fedyddiwr. Sylwer fod Marc yn *dechreu* gyda gweinidogaeth Iesu fel yn canlyn pregethiad Ioan. Mae Matthew a Luc yn dechreu gyda hanesion am ei enedigaeth a'i fabandod.

Iesu Grist.—Ystyr y gair "Iesu" yw Iachawdwr neu Waredwr (Matt. i. 21). Mae'n sefyll yn y Groeg am y gair Hebraeg Joshua (Actau vii. 45; Hebreaid iv. 8). Yr oedd yn enw cyffredin am bersonau yn mhlith yr Iuddewon (Colossiaid iv. 11; Actau xiii. 6). Nid oedd y gair Crist yn enw, ond yn deitl desgrifiadol o un mewn swydd sef y Messiah, ac yn golygu "enneiniog." Gwel Gwers VII. yn Rhifyn Tachwedd, 1896.

Mab Duw.—Gadewir y geiriau hyn allan fel yn ddiawdurdod gan Tischendorf, ac hefyd yn yr argraffiad beirniadol diweddaraf o'r Testament Groeg gan Westcott a Hort.

Adn. 2, 3.—Cymharer Malachi iii. 1 ; Esaiah xl. 3.

Yn y Proffwydi—Y darlleniad iawn ydyw "yn Esaiah y proffwyd," er fod yma ddyfyniad o Malachi yn gystal ag o Esaiah. Nid yw yn amlwg sut mae'r camsyniad wedi digwydd. (Gwel Solly ar yr adnodau). Yn y ddau ddyfyniad cawn engreifftiau o'r defnydd a wneir o ranau o'r Hen Destament er dangos sut oedd y proffwydoliaethau yn cael eu cyflawni yn Iesu Grist. Mae y geiriau yn Malachi yn gosod allan Jehovah fel ar ddyfod ei hun yn ddisymwth i'w deml er mwyn puro meibion Lefi. Yn ol y dyfyniad o Esaiah mae Duw yn dyfod at ei bobl i'w gwaredi o'u caethiwed yn Babylon. Trwy gymhwysiad yn unig y gellir defnyddio y geiriau am Iesu Grist.

Parottowch ffordd, &c.—Mae y ffigiwr yn cael ei benthycca oddiwrth yr arferiad yn y Dwyrain, lle yr oedd prif-ffyrdd mor brin a diffygiol, i anfon dynion allan yn mlaen-llaw i barottoi ffordd i'r brenin pan y buasai ar ei daith o un ran o'i deyrnas i'r llall.

Ad. 4.—Y darlleniad iawn yn ol Westcott a Hort ac eraill yw *Daeth Ioan Fedyddiwr yn y diffaethwch gan bregethu*, &c. Gwel hanes genedigaeth Ioan yn Luc i. 5—26. Mab yr offeiriad Zechariah ac Elizabeth o ddinas yn Judea oedd. Yr oedd Elizabeth yn berthynas i Mair mam Iesu (Luc. i. 36). Bu yn y diffaethwch hyd y dydd yr ymddangosodd efe i Israel (Luc. i. 80). Yr oedd yn Nazaread (Luc i. 15), desgrifiad o'r hwn a gymerir o Numeri vi. 2, &c.

Yn bedyddio.—Bedydd trwy drochiad yn ddiamheu a feddylir—ac fel defod i'w holrain yn ol at olchiadau yr hen Destament (Exodus xxix. 4 ; Lef. xiv. 8 ; 2 Bren. v. 10). Mae bedydd Ioan er hyny yn sefyll ar ei ben ei hun fel dadblygiad pellach o syniadau mwy ysprydol y proffwydi (Esaiah i. 15—17).

Y diffaethwch.—Tir anghwrteithiedig gydag ychydig bobl yma ac acw yn ei breswylio, ar lanau deheuol yr Iorddonen cyn iddi ymarllwys i'r Mor Marw.

Gan bregethu.—Yn hytrach "cyhoeddi" fel criwr. Nid yn pregethu yn yr ystyr gyssegredig gan gymeryd bedydd fel ei destyn, ond yn galw dynion yn gyhoeddus i'w fedydd.

Bedydd edifeirwch.—Bedydd ag oedd yn arwydd allanol o'r cyfnewidiad mewnol,—edifeirwch Edifeirwch yn gyntaf, bedydd wedi'n yn gosod allan mewn modd allanol y buredigaeth fewnol oedd wedi dechreu. Golyga'r gair "edifeirwch" gyfnewidiad meddwl. Mae dyn ar ol cyflawni gweithredoedd neillduol, a gweled feallai eu canlyniadau, yn ail-ystyried ei sefyllfa. Mae'n anfoddlawn ar hyn mae wedi wneyd. Mae'n cyfnewid ei feddwl gyda golwg ar yr hyn y dylai cwrs ei fywyd fod. Mewn gair cynnwysa'r gair "edifeirwch" dri o bethau, (1) Cyfnewidiad meddwl yn wyneb pechodau y gorphenol, (2) Gofid dwys o'u herwydd, (3) Penderfyniad i'w gadael ac i ddilyn buchedd sanctaidd. Mae'r adnewyddiad

buchedd yma yn golygu fod gallu yr hen bechodau yn cael ei raddol symud ymaith a chymhelliadau a dylanwadau sanctaidd yn llywodraethu'r galon, yr hyn yw "maddeuant pechodau."

Ad. 5. *Ac aeth allan atto ef holl wlad Judea*, &c.—Tipyn o ormodiaeth yn golygu fod nifer fawr o drigolion Judea a Jerusalem yn dyfod i'w fedydd. Paham yr aethant yn y fath luoedd? Tybiwn am y rhesymau canlynol: (1) Credai llawer o honynt fod yna broffwyd oddiwrth Dduw, bod dystawrwydd y pum' can' mlynedd oedd wedi pasio wedi ei dori drachefn, ac un o linach yr hen broffwydi wedi ymddangos. (2) Hynodrwydd y proffwyd (Gwel ad. 6). (3) Ei allu a'i ddylanwad personol fel proffwyd. Meddylier am esiamplau diweddar fel Beecher a Spurgeon. (4) Yr oedd yr awyr fel pe byddai yn llawn o'r disgwyliad am y Messiah, ac yr oedd pobl yn barod i ruthro yma ac acw gan yr awydd i gael rhyw hanes am dano.

Ad. 6. Dangoser yma mor syml oedd ei fywyd. Yr oedd o ran ei wisg yn debyg i Elias (2 Bren. i. 8). Yr oedd ei ymborth yn syml—locustiaid y rhai mae tlodion y wlad yn barod i ddefnyddio hyd heddyw, a mêl gwyllt wedi ei ystorio yn agenau y graig. Rhywbeth nesaf i law i un oedd wedi ei lyncu i fyny gan ei genadwri ac yn edrych yn ddirmygus ar arferion esmwyth a moethus oddiwrth y rhai yr oedd wedi ymneillduo i'r diffaethwch.

Ad. 7. *Ac efe a bregethodd*, yn hytrach *Yr oedd efe yn cyhoeddi. Carrai esgidiau.* Gwaith y caethwas yn y dwyrain oedd dattod carrai esgidiau neu sandalau ei feistr, ac mewn cymhariaeth i'r hwn oedd ar ddyfod, yr oedd Ioan yn gosod ei hun yn îs na'r caethwas.

Ad. 8. *A'r Ysbryd Glan*, neu yn hytrach fel ar ymyl dalen y cyfieithad diwygiedig "ag yspryd glan." Nid oedd gan Ioan un syniad am yr Yspryd Glan fel person. Yspryd Duw a feddylir, yr hwn a ddesgrifir yn yr Hen Destament fel y gallu sydd yn bywydu y greadigaeth, yn ysprydoli y proffwyd, y milwr, y brenin, ac hyd y nod y gweithiwr. Yn y cysylltiad yma, mae yn Yspryd Glan neu sanctaidd, ac fel y cyfryw yn elfen sydd yn puro dyn yn fewnol ac yn sylweddol fel y mae dwfr yn ei buro oddiallan. Yr oedd Ioan yn golygu y byddai'r un mawr oedd i ddyfod ar ei ol ef yn treiddio i mewn i'r galon, ac felly yn puro ffynonellau bywyd trwy ddylanwadau sanctaidd y gair a'r yspryd oeddent wedi eu cyfranu iddo.

Cenadwri Ioan.—Gellir ei symio i fyny mewn dau air—(1) EDIFEIRWCH. Mae y fath beth a chyfnewidiad calon. Gellir gorchfygu hen arferion llygredig, ac mae llawer pechadur wedi ei achub trwy fod serch newydd a sanctaidd wedi ei eni oddifewn iddo. Maddeuant ydyw'r teimlad dedwydd yn y fynwes pan y mae cydwybod dyn yn ei ganmawl a Duw yn edrych i lawr mewn cymeradwyaeth ar

fuddugoliaeth dros ddaioni sydd wedi ei henill. Ond nid yw maddeuant yn golygu fod holl ganlyniadau pechod wedi eu dileu. (2) PAROTTOAD. Yr oedd Ioan yn parottoi ar gyfer un cryfach nag ef. Felly mae pob symmudiad daionus yn barottoad. Mae pobpeth yn hanes yn broffwydoliaethol, ond dim yn derfynol. Mae Cristionogaeth ei hun, os nad yw i gael ei chanlyn gan gyfundrefn uwch ar y ddaear, yn barotoad ar gyfer y sefyllfa hono o berffeithiad a sylweddolir mewn byd gwell pan yr ymgyfarfyddwn oll yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw. Yn hanes cynnydd y dyn unigol, mae'r un egwyddor yn amlwg. Cymerwn un cam fel parotoad ar gyfer y cam nesaf, ac o rîs i rîs yr adeiladir i fyny gymeriad dyn ar ddelw yr hwn a'i creodd.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

(1) Sut mae Efenyl Marc yn dechreu? (2) Sut mae Matthew a Luc? (3) Rhoddwch ystyr y geiriau "Iesu" a "Crist." (4) Beth yw'r gair Hebraeg am "Iesu"? (5) Beth yw'r darlleniad iawn yn ad. 2? (6) At beth mae'r geiriau a ddyfynir o Malachi yn cyfeirio yn wreiddiol? (7) Yr un gofyniad gyda golwg ar y geiriau o Esaiah. (8) Ar ba egwyddor y defnyddir hwy am Iesu Grist? (9) Oddiwrth ba arferiad mae'r ffigiwr o "barottoi'r ffordd" wedi ei benthycca? (10) Dywedwch yr hyn a wyddoch am Ioan Fedyddiwr. (11) A allwch chwi gyfeirio at ryw bethau yn yr Hen Destament yn dal perthynas a bedydd? (12) Beth, ac yn mha le, oedd y "diffaethwch." (13) Enwch y berthynas rhwng bedydd ac edifeirwch? (14) Rhoddwch ystyr y gair "edifeirwch." (15) Rhoddwch rai rhesymau dros fod y bobl yn myned yn y fath luoedd i fedydd Ioan. (1) Dangoswch mor syml oedd ei fywyd.

GOFYNIADAU I SAFON 4.

(1) Sut mae Efengyl Ioan yn dechreu? Dywedwch yn fyr beth yw Efengyl Iesu Grist *(1)* o ran ei tharddiad, *(2)* o ran ei chynnwys, *(3)* o ran ei hamcan. (2) Yn mha fodd mae Iesu Grist yn Iachawdwr neu Waredwr? (3) A oes proffwydoliaethau yn yr Hen Destament yn cyfeirio yn uniongyrchol at Iesu Grist; neu ynte ar yr egwyddor o gymhwysiad y gellid eu defnyddio am dano? (4) Beth yw dull bedydd; a pha rai ydynt ddeiliaid bedydd yn ol y Testament Newydd? (5) Sut ydych yn cyfiawnhau bedydd babanod? (6) Enwch dri o bethau sydd yn gwneyd i fyny "edifeirwch" (7) Beth fedyliwch chwi wrth "faddeuant pechodau"? (8) Rhoddwch y gwahaniaeth rhwng bedydd â dwfr a bedydd âg Ysbryd Glan? (9) Enwch y ddau brif beth yn nghenadwri Ioan. (10) Dangoswch fod y ddau yn symiadau gwirioneddol ac arosol. (11) Enwch y manau cryfion a'r manau gweinion yn Ioan Fedyddiwr a'i addysg.

Y PARCH. WILLIAM THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

[Ganwyd yn Brechfa, yn sir Gaerfyrddin, yn 1834. Yn dechreu ysgrifenu i'r cyfnodolion, 1845. Yn ysgol Ffrwdfâl, 1851. Cael ei dderbyn i Goleg Caerfyrddin, 1851. Yn Mhrif-ysgol Glasgow fel ysgolor Dr. Williams, 1856. Athraw i Islwyn, 1857-1858. Yn cyhoeddi llyfryn o brydyddiaeth, 1859. Gweinidog Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa, 1860. Yr un flwyddyn yn agor Ysgol Ramadegol yn Llandyssul. Golygydd *Yr Athraw*, 1865. Yn cymeryd rhan arweinydd mewn Gwleidyddiaeth, 1868. Troad allan y ffermwyr, 1871. Troad allan Cynulleidfa a Gweinidog Llwynrhydowen, 1876. Adeiladu y Capel Newydd, 1877 1879. Adferiad yr Hen Gapel i'r Gynulleidfa, Awst, 1879. Marw Rhagfyr 11eg, 1879.—O'r *Llenor*, Gorphenaf, 1895*].

Yn mhlith ysgrifeniadau lluosog Dr. Smiles mae dau fywgraffiad yn dwyn enwau y ddau naturiaethwr Ysgotaidd, Thomas Edward, a Robert Dick, yn meddu dyddordeb anghyffredin. Dau ddyn flawd oeddent mewn cymhariaeth, a dinod, wedi cyssegru eu hunain gyda brwdfrydedd mawr, i ganghenau neillduol o wyddor, ond wedi aros yn y cysgod trwy eu hoes heb enill unrhyw gydnabyddiaeth ar ran y cyhoedd cyfattebol i werth eu talent a'u llafur. Smiles, mewn gair, oedd eu darganfyddwr. Efe a'u dygodd i sylw ac a adgofiodd y byd unwaith yn rhagor fod angelion, yn ffurf meibion athrylith, cynnyrchion prinaf gwaith llaw y Creawdwr Mawr, yn ymweled a chonglau o hono yn ddiarwybod. Nis gellir dweyd fod Gwilym Marles mor anadnabyddus tuallan i'w gartref ac oedd Thomas Edward a Robert Dick. Yr oedd iddo gylch helaeth o gyfeillion ac edmygwyr trwy Ddeheudir Cymru; ac yr oedd ef a'i helyntion wedi gwneyd i fyny benod ryfedd a dyddorol yn hanes ei wlad. Ond am Gwilym Marles fel dyn o athrylith, fel un wedi ei eni yn fardd o'r iawn ryw, a'r crebwyll barddonol wedi ei ddadblygu ynddo mor uchel fel y deil ei gymharu a beirdd mwyaf ei genedl. Mae'r byd Cymreig yn ddyledus i'r erthygl odidog yn *Yr Llenor* o'r hon yr ydym wedi dyfynu yn barod, yn nghyd a'r casgliad o farddoniaeth sydd yn attodiad iddi. Mae ysgrifenydd yr

* Cyhoeddedig gan Hughes a'i Fab, Gwrecsam. Pris swllt. Gobeithiwn y bydd yr ychydig sylwadau a ganlyn yn foddion i arwain y darllenydd at yr erthygl yn y *Llenor* gan un o fywgraffwyr mwyaf medrus a phoblogaidd Cymru. Mae yn werth pris y Rhifyn a llawer mwy.

erthygl yma, fel Dr. Smiles, wedi bod yn ddarganfyddwr, ac wedi codi Gwilym Marles o'i ddinodedd barddonol fel pe byddai; gyda'r canlyniad fod y llenor a'r hanesydd enwog Mr. O. M. Edwards, M.A., Rhydychen, yn ei restri ef gydag Islwyn fel y ddau fardd Cymreig mwyaf eu darfelydd *(imagination)* a fagodd Cymru yn yr oes hon. Yn *Welsh Lyrics of the Nineteenth Century* a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn hon, ymddengys cyfieithad Saesneg o ddwy gân o'i eiddo, a dywed y cyfieithydd, y Parch. Edmund O. Jones, ficer Llanidloes, y byddai cyhoeddiad o'i weithiau yn wasanaeth sylweddol i lenyddiaeth Gymreig.

Ar wahan oddiwrth ei farddoniaeth, yr oedd llawer oeddent yn gynnefin ag ef, yn gwybod am ei deithi meddyliol, ac wedi cael y fraint o'i glywed ar yr esgynlawr ac yn y pwlpud, wedi eu hargyhoeddi o'r blaen mai dyn mawr oedd; ac y buasai yn llawer mwy yn ngolwg ei genedl, ac wedi gwneyd mwy, oni bai am ddau achos oeddent wedi cyfyngu ei ddylanwad a'i allu. Un peth: yr oedd yn perthyn i enwad bychan, neilldueding, a dinod, ac felly heb ond ychydig fanteision a chyfleusderau i'w alluoedd anghyffredin fel pregethwr i gael eu gwerthfawrogi. A gwaeth na'r cwbl, yr oedd wedi gadael, wrth lais cydwybod, yr enwad mawr poblogaidd y perthynai iddo pan yn ieuanc, ac wedi cofleidio heresi ag y dywedir yn mhob man yn ei herbyn. Mewn gwlad fel Cymru lle mae cyssylltiadau crefyddol yn ffurfio rhwymau mor gadarn a chyssegredig, yr oedd ef yn hollol allan o gydymdeimlad a mwyafrif mawr ei genedl ar y mater pwysicaf o'r oll.

Hefyd, yr oedd wedi ei orfodi gan amgylchiadau i fod yn ysgolfeistr, a rhwng ei waith caled yn yr ysgol a'i ddyledswyddau fel gweinidog am lawer o flynyddau ar *dair* o gynulleidfaoedd, prin iawn oedd ei amser i gwrteithio ei athrylith fel bardd a llenor; ac mae'n syndod iddo gael hamdden i ysgrifenu cymaint ag a wnaeth. Gwaith caled a ffwdanus ofnadwy ydyw gwaith yr Ysgolfeistr i ddyn hollol *prosaic*, heb un wreichionen o farddoniaeth ynddo fel y gallwn ni dystio oddiar brofiad; ond pa faint mwy ydyw i fardd ag mae ei ddychymyg hedegog yn curo ei esgyll yn erbyn muriau ei garchar o ddydd i ddydd ac yn curo yn ofer. Am ei waith caled fel ysgolfeistr gallwn ddyweyd, gydag un cyfnewidiad, yn ngeiriau ei ragflaenydd, yr enwog Ddafis o Gastellhywel —

> "Gauaf llafur, dfos ei fywyd,
> Lethai ei yspryd gwych i lawr,
> Ac a rewa'i fywiol ffrydiau
> Swydd gynheddfau ei enaid mawr."

Ond os mae dygn angenrheidrwydd a'i gwnaeth yn ysgolfeistr,

gwyr y wlad yn mhell ac agos iddo gyflawni dyledswyddau y cylch hwnw, gyda zêl frwdfrydig, medr digymar, a llwyddiant mawr.

Pe buasem yn gwneyd yr ychydig nodion gwasgarog yma yn sylwedd pregeth, y testyn fuasai "ynddo ef yr oedd bywyd." Egni diymattal oedd cyweirnod ei yrfa. Gweithiai a'i holl egni y ddyledswydd oedd yn gorwedd agosaf ato. Yn ei ddyddiau goreu dawnsiai ei gorph gan fywyd mewn ufudd-dod i symudiadau bywiog a diorphwys ei feddwl; ac yr oedd ryw yni trydanol yn treiddio trwy ei bregethau, ei weddiau a phob peth a wnelai. Nid yw yn syndod, gan y llosgai fflam bywyd mor angerddol, ac yn fwy felly yn wyneb treialon chwerw blynyddoedd diweddaf ei oes, fod ei nerth wedi gostwng ar y ffordd a'r diwedd wedi do'd a'i waith heb haner ei wneyd. Marw yn bump-a-deugain oed, yn nghanol ei ddefnyddioldeb gydag adnoddau cyfoethog o wasanaeth daionus a gymerent flynyddau lawer yn ychwaneg i'w dihyspyddu. Yn ein hanystyriaeth yr ydym ambell waith yn barod i ddweyd fod bywyd drylliedig fel yma yn fethiant. Ond yr ydym yn camsynied. Nid wrth ei hyd yn unig mae gwerth bywyd i gael ei brisio. Mae gan fywyd hefyd ei led i gael ei fesur wrth ei angherddoldeb, ei ymgyssegriad, wrth yr anhawsderau sydd wedi eu gorchfygu, a'r methiantau sydd wedi eu gweddnewid i fod yn fuddugoliaethau. Ac mae helaethrwydd ei led yn gwneyd i fyny am ddiffyg ei hyd. Bywyd felly oedd bywyd Gwilym Marles. Bywyd dyn mawr ydoedd, a delw athrylith ar ei holl symudiadau, a'r athrylith hono yn fyw gan ymlyniad brwdfrydig wrth ddyledswydd sydd wedi gwneyd ei wasanaeth fel llenor, fel diwygiwr mewn Gwleidyddiaeth a chrefydd, fel gwron a safodd a'i wyneb yn hyf at y gelyn yn nydd y frwydr, yn ran o'r *capital* trwy gymhorth yr hwn mae dynoliaeth yn myned yn mlaen ar yrfa ei chynydd. Er wedi marw mae yn llefaru etto, ac erys dylanwad ei fywyd a'i esiampl yn ysprydoliaeth i filoedd ydynt yn llafurio gan gredu fod llawer pant etto i'w gyfodi, a llawer mynydd a bryn etto i'w gostwng, cyn y bydd ffordd yr Arglwydd wedi ei pharottoi ar y ddaear.—W. J.

NODYNAU GWASGAROG.

"Y CEDYRN YN SYRTHIO."

Mae enwad parchus yr Independiaid, yn ystod yr ychydig wythnosau diweddaf, wedi colli rhai o'i gwyr mwyaf cyfrifol. Pan yr oedd ond newydd ymuniawnu ar ol yr ergyd gafodd yn marwolaeth

y Prif-athraw Morris, o Goleg Aberhonddu, wele'r newydd yn cerdded fel mellten trwy holl Gymrû fod cawr mwy fyth wedi syrthio yn y Prif-athraw Herber Evans, o Fangor. Dyn mawr oedd Herber Evans ar lawer ystyr—yn bregethwr mawr, yn ddarllenwr mawr, ac yn un mawr ei ddylanwad yn yr holl wlad. Colled fawr i unrhyw enwad yw colli cynifer o gewri mewn yspaid mor fer.

YR "YMOFYNYDD" AM 1897.

Ar ddechreu y flwyddyn hon—blwyddyn Jiwbili yr "YMOFYNYDD," yr ydym am wneyd ein misolyn yn fwy teilwng nag erioed o hono'i hunan, ac o'r enwad y ceisia ei chynrychioli. Nid ydym yn arbed unrhyw drafferth er cyrhaedd yr amcan hwn, ac y mae lliaws o ysgrifenwyr medrus wedi bod yn hynod barod i addo ein helpu yn hyn. Parheir y gwersi ar hanes bywyd Iesu, a da iawn genym gael ar ddeall oddiwrth amryw lythyron ydym wedi dderbyn o wahanol barthoedd fod y gwersi hyn yn dderbyniol ac yn boblogaidd iawn. Bydd erthygl y Parch. D. D. Jeremy, M.A. ar hanes ei hybarch dad, y diweddar Barch. John Jeremy, ac ar gynydd yr achos Undodaidd yn Nghellan, yn sicr o fod yn ddyddorol iawn. Nid oes posibl cael neb yn twy cymwys na Mr. Jeremy i ysgrifenu ar y pwnc. Ymddengys hefyd yn ystod y flwyddyn ffug-chwedl o rodwedd uchel, ac yn cynwys gwersi rhagorol, wedi eu ysgrifenu gan un o'n gweinidogion ieuainc. Bydd y fath gyfres, yn nghyd a'r erthyglau y crybwyllir am danynt mewn man arall, yn sicr o godi safon ein cylchgrawn, a'i wneyd yn hynod ddarllenadwy. A gawn ni obeithio am ychydig yn rhagor o gylchrediad? Mae ei angen arnom.

YR ACHOS CYMREIG YN LLUNDAIN.

Yr ydym yn deall fod yr achos Undodaidd yn Llundain yn myned ar ei gynydd, a bod y ffyddloniaid yno mor obeithiol ag erioed y bydd iddo lwyddo. Y rhwystr mawr ar eu ffordd yw prinder arian. Fel y gellir, yn naturiol, gasglu, gwaith costus yw sefydlu achos mewn lle fel Llundain, a phan nad oes gyfoethogion y tu cefn, yn barod i gyfranu o'u heiddo, anmhosibl yw gwneyd llawer o gynydd. Deallwn fod yn mwriad y brodyr i apelio am help. Ac os gwnant, gallwn ddweyd na fu achos erioed yn fwy teilwng o gefnogaeth na'r ddeadell ieuanc sydd yn ymgyfarfod yn yr ystafell glyd yn Furnival Street. Fe ddylai pobl sydd yn gweithio gwaith mor dda, ac o dan gymaint o anfanteision, gael bob help, ac hyderwn yn fawr y cânt ef.

Manion ac Bancsion.

DOWLAIS.—Dydd Iau, Rhagfyr 10, cynaliadd yr eglwys uchod eu Te Parti Blynyddol. Er fod y tywydd yn anffafriol, daeth dros bedwar cant o bobl ynghyd. Ymwelodd amryw o'n cyfeillion a ni o Aberdar, Cwmbach, Merthyr, a Cefncoed. Yr ydym yn teimlo yn ddiolchgar iawn i Mr. Richard Lewis, Colly Farm, am ei fod eleni fel arfer wedi ein hanrhegu a digon o laeth at ein gwasanaeth.

Da genym hyspysu ein darllenwyr y byddwn yn cyhoeddi yn ystod y flwyddyn hon gyfres o bapyrau ar brif athrawiaethau Undodiaeth gan ohebydd newydd yn ysgrifenu o dan yr enw "Pererin." Ar gyfrif cymhwysderau uchel yr ysgrifenydd hwn fel meddyliwr a duwinydd gallwn addaw y bydd pynciau fel y rhai canlynol—Duw, Dyn, Y Diafol, Iesu, Y Beibl &c., yn cael eu trin yn yr ysbryd gwyddorol a mewn modd trwyadl ac ar yr un pryd dyddorol i'n darllenwyr. Ymddengys y cyntaf —"Duw" yn rhifyn Chwefror.

BRONDEIFI LLANBEDR. — Cynhaliwyd Cyfarfod Cystadleuol yn y lle uchod nos Fercher Rhag. 16eg. Cymerwyd y gadair gan y Parch R. C. Jones. Cafwyd cystadleuaethau lled dda a bu y canlynol o'r capel yma yn fuddugoliaethus :—
Y Cor cymysg o dan arweiniad Mr. W. Hevin Williams, Bridge-street; Parti Boneddigesau o dan arweiniad Miss M. H. Davies, Temperance; Cor Piano o dan arweiniad Miss C. E. Price, Bridge-street; Unawd Tenor, Mr. D. Davies, Gwargate; Unawd Baritone, Mr. E. Davies, Cwmanne; Unawd i ferch dan 15 oed, Miss S. A. Williams, Bridge-street; Unawd i fab dan 15 oed, Mr. J. C. Williams, Bridge-street; Unawd i blant o dan 12 oed Miss A. M. Price, Bridge-street; Ail Mr. J. C. Williams; Deuawd i blant dan 15 oed, Misses J. Davies, a A. M. Price, Bridge-street; Adroddiad i rai dan 16 oed, Miss D. Jones, Drovers-street; Ail Miss S. A. Williams; Adroddiad i rai dan 12 oed, Miss D. Jones.

RHIFYN CHWEFROR.—Yn y rhifyn nesaf a'r rhai dilynol, parheir yr erthyglau dyddorol ar y Parch. John James.

RHIFYN CHWEFROR.—Yn y rhifyn nesaf dechreuir cyfres o erthyglau gan y Parch. D. D. Jeremy, M.A., ar "Y Parch. John Jeremy, a'r achos Undodaidd yn ardal Cellan."

RHIFYN CHWEFROR. — Yn ein rhifyn nesaf dechreuir ffug-hanes grefyddol, yn orlawn o wersi da, gan un o'n gweinidogion ieuainc mwyaf addawol — Gelwir y stori yn "John Israel Jones." Anfoner pob archebion am gopiau at y Gol.

PRIODAS.—Rhag. 26, yn nghapel Twynyrodyn, Merthyr, gan y Parch. Hathren Davies, a cherbron y Cofrestrydd, priodwyd Miss E. A. Evans, merch henaf y diweddar Mr. John Evans, Crydd, Cefn Coed, a Mr. Thomas Jones, Gôf, o'r un lle. Oes hir a llawn o fwyniant i'r ddau.

CEFN.—Ddydd Nadolig rhoddwyd gwledd o de a bara brith i ddeiliaid yr Ysgol Sul, a chyfranogwyd o honi gan dorf luosog. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod hynod ddyddorol o dan lywyddiaeth Mr. R. Jones. Adroddwyd yn fedrus gan y plant, a chanodd y cor ac eraill yn ardderchog.

"PERLAU MOLIANT." — Yr wyf yn diolch yn wresog iawn i'r eglwysi hyny ag ydynt wedi prynu y llyfr tonau, ac hefyd i nifer fawr o gyfeilliion o enwadau eraill ag ydynt wedi bod yn hynod garedig i mi. Anmhosibl yw i mi ddiolch yn bersonol iddynt, felly yr wyf yn gwneyd hyny trwy gyfrwng yr *Ymofynydd*. Mae y derbyniad y mae'r llyfr wedi gael yn mhell tuhwnt i'm disgwyliadau. Diolch yn fawr i bawb.

D. EIDDIL JONES.

Marwgofion.

Tachwedd 1af, 1896, ar ol cystudd hir, Mr. Thomas Evans, Pandy, Rhydowen, yn 40 oed. Yr oedd yn aelod ffyddlon o eglwys y Llwyn, a dygai fawr zel dros yr achos, yn neullauol y canu. Y dydd mercher canlynol cludwyd ei weddillion marwol i fynwent newydd y Llwyn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Arthur Thomas, ac ar lan y hedd gan y Parch. W. James, B.A., J.P. Gadawodd weddw a phedwar o blant i alaru ar ei ol.

Hydref 26, 1896, yn 4 mis oed, David, baban bychan Mr. John Jones, Pwllgravel. Claddwyd yr un bychan y dydd mawrth canlynol yn mynwent Pantdefaid pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H.

Tachwedd 20fed, Mary Harries, Cwmgorse, yn 93 oed. Dim ond am ychydig flynyddau y bu hi'n byw cyn ei marwolaeth yn y lle uchod. Merch ydoedd hi i Dafydd Bowen, Cefneithrym, a gweddw y diweddar Noah Harries, Blaengarnant, Farm, Cwmaman, Sir Gaerfyrddin. Ymaelododd yn Gellionen yn fuan iawn wedi ymsefydlu John James yn weinidog; a phrofwyd hi yn aelod selog, a ffyddlon, dros yr achos. Daliodd trwy ei hoes yn gadarn o blaid y ffydd a broffesai; ac yn Undodwraig o'r Undodiaid. Mwynhaodd iechyd gweddol hyd yn ddiweddar. Claddwyd hi y llun canlynol yn mynwent Gellionen; pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur, i dyrfa luosog o berthynasau a chyfeillion yr ymadawedig, gan y Parch. T. J. Jenkins, gweinidog y lle. Heddweh i'w llwch.

Tachwedd yr 2il bu farw Thomas Evans, Pandy, Rhydowen, o'r ddarfodedigaeth, yn 40 mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion marwol yn mynwent newydd y Llwyn y dydd mercher canlynol, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur galarus gan y Parch. T. Arthur Thomas, Pantdefaid. Yr oedd Thomas Evans—neu Tomos y Twcwr, fel yr adnabyddid ef yn gyffredin—yn un oael odau ffyddlonaf y Llwyn er pan yn ieuanc, a thra y parhaodd ei iechyd, yr oedd bob amser yn weithiwr llafurus a chysson gyda'r achos da. Gwnaeth lawer o ddaioni yn ei ddydd gyda'r ysgol sul a'r ysgol gân, a bu yn foddion i roddi cychwyniad i nifer luosog o ieuenctyd i ddarllen cerddoriaeth. Yr oedd ynddo lawer o rinweddau eraill gwerth eu hefelychu. Meddai ar syniadau elir a rhesymol am egwyddorion sylfaenol cristionogaeth, ac ymhlith ei brif nodweddion oeddynt, ei barodrwydd i gynorthwyo gydag unrhyw achos da yn yr ardal, ei wroldeb i ddatgan ei farn yn groew, er gorfod dioddef yn fynych am hyny, ei gasineb at bob math o ragrith a ffug santeiddrwydd, ei ffyddlondeb diysgog dros yr hyn a goleddai, ynghyd ag ysbryd goddefol at y sawl y gwahaniaethai oddiwrthynt yn ei olygiadau. Yr oedd y dorf luosog a ddaeth ynghyd i dalu y gymwynas olaf iddo yn brawf eglur o'r parch a fynwesid tuag ato gan ei ardalwyr. Gadawodd weddw a phedwar o blant i alaru ar ei ol. Gwened y Nef arnynt, a nerth a gaffont i dyfu i fyny yn golofnau yr achos yn y Llwyn—achos sydd yn cael ei fathru gan elynion o bob tu ar hyn o bryd.

ARGRAFFWYD GAN GWMNI Y "TIMES" JOHN STREET, MERTHYR.